

Tachwedd/November and  
December/Rhagfyr 2016

Cylchlythyr/Newsletter

Rhif/Issue 1

# BABELL ZION NEWYDD

Rhiw Babell Pensarn Caerfyrddin SA31 2JQ



*D. M. B. M. 1997*

**This newsletter has been digitised as part of a project to archive material relating to Llangunnor so that a record exists for future generations**

**Thanks to Babel Zion Newydd Chapel for permission to do this**



# **NEWYDDION YR**

## **AELODAU**

### **DYMUNIADAU PENBLWYDD**

Dathlodd Charmaine ei phenblwydd yn 80 ar Fedi'r 26<sup>ain</sup>. Er iddi lwyddo i'w gadw'n gyfrinach tan ar ôl y diwrnod fe lwyddom i gynnal tê bach arbennig iddi ar ôl gwasanaeth y Sul ar ddechrau Hydref. Penblwydd hapus iawn Charmaine!

Mae pob penblwydd yn arbennig wrthgwrs ond rhaid edmygu Lilian, a ddathlodd ei 97<sup>fed</sup> ar Hydref 7<sup>fed</sup> ac nid yw'n colli gwasanaeth ar y Sul na'r Ganolfan ar ddydd Iau. Mae'n dioddef anwyd trwm wrth i hyn gael ei ysgrifennu felly dymunwn iddi wella'n gloi. Mae Heledd Evans wedi dechrau mewn swydd newydd gyda'r Llywodraeth yn Nantgarw ger Caerdydd. Dymunwn yn dda iddi wrth iddi ddechrau ar yrfa newydd ac fel aelod o Gorws BBC.



## **MEMBERS' NEWS**

### **BIRTHDAY WISHES** go to

Charmaine who celebrated her 80<sup>th</sup> birthday on 26<sup>th</sup> September. Although she managed to keep this a secret until after the event, according to our custom, a special tea was held after the service at the beginning of October. Many happy returns of the day Charmaine!



All birthdays are of course special but one can only admire Lilian, who celebrated her 97<sup>th</sup> on October 7<sup>th</sup> and does not miss a Sunday service nor a Friendship Centre. Lilian is suffering from a heavy cold at the time of writing. Get better soon Lilian.

Heledd Evans has started on a new career working in the Government Offices at Nantgarw near Cardiff. We wish her well in her new career and also as member of the BBC Chorus.

### **GWEDDIAU ARBENNIG**

A wnewch chi gofio yn eich gweddiau y mis hwn os gwelwch yn dda bawb sy'n hysbys i ni sydd yn cael bywyd yn anodd ar hyn o bryd. Rhaid i ni sôn am Mandy a gafodd lawdriniaeth fawr yn ddiweddar a'i theulu sy'n gymaint o gefn iddi. Mae hefyd yn dda gweld Carole nôl wrth yr organ ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Boed i bawb wybod a themlo cysur a nerth yr Arglwydd Iesu Grist wrth Iddo ei amgylchynu gyda'i gariad.

### **SPECIAL PRAYERS**

Please remember in your prayers this month all those known to us who are travelling a rocky journey. We must mention Mandy who has recently undergone a major operation and her family.

It is also good to see Carole back as organist after a brief time in hospital. Let all know and feel the comfort and strength of our Lord Jesus Christ as He surrounds them with His love.

# **CHAPEL NEWS/ NEWYDDION Y CAPEL**

## **HARVEST THANKSGIVING SERVICE**

A special service was held on October 9<sup>th</sup> with Captain Neil Duquenim of the Salvation Army officiating. The service was led by the members and children of the Sunday School and the theme taken encompassed our role as stewards of God's world. Many plants and animals are in danger of extinction and it is only by the way we live and take care of our environment that we can save the natural world as we know it. Pat then took the three fruits, the fruit of the Garden of Eden almost always represented by the apple, the olive and the vine to express the symbolism of the fall of man, the mountain of redemption and the sacrifice of Jesus respectively. It was a memorable service and the dried food and vegetables were presented to the Salvation Army for which they were truly grateful. Thank you to everyone for their participation. The loose collection of £122 was presented to Christian Aid for the Haitian Earthquake Appeal and all October loose collection will go towards the Appeal.

## **GWASANAETH DIOLCHGARWCH**

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig y Cynhaeaf ar Hydref 9<sup>fed</sup> gyda Captain Neil Duquenim o Fyddin yr Iachawdwriaeth yn gwasanaethu. Cymerwyd rhan gan yr aelodau a phlant yr Ysgol Sul ac yr oedd y thema yn ymwneud gyda'n rôl ni fel stiwardiaid yng nghreadigaeth Duw. Mae llawer o blanhigion ac anifeiliaid mewn perygl o ddiplannu a dim ond trwy newid ein ffyrdd o fyw a chymryd gofal o'r hamgylchfyd medrwn achub y byd naturiol fel yr ydym yn ei adnabod.

Yna fe wnaeth Pat gymryd fel ei thestun dri ffrwyth, ffrwyth Gardd Eden a gymrychiolir yn fwyaf arferol gan yr afal, yr olewydden a'r winwydden i fynegi symboliaeth Cwmp dyn, mynydd achubiaeth a merthyrdod yr Iesu. Roedd yn wasanaeth gofiadwy ac fe rhoddwyd yr offwm o fwydydd sych a llysiau i Fyddin yr Iachawdwriaeth. Diolch i bawb am eu cyfraniadau. Rhoddwyd yr offrwm ariannol rhydd £122 ar y dydd i Gymorth Cristnogol ynghyd â casgliad rhydd fis Hydref ar gyfer Apêl Haiti, gwlad a ddiodefodd daeargryn ofnadwy eto.

## **YR OFALAETH NEWYDD a'r Parch IESTYN AP HYWEL**

Cymerwyd pleidlais ar Sul Hydref 16<sup>ed</sup> ar y cwestiwn a oeddem fel eglwys yn dymuno gweinidogaeth fel rhan o ofalaeth newydd o Ionawr 2018 ymlaen. Roedd y deg eglwys o blaid y cynnig. Y naw capel arall ydy Capel Newydd Llanddarog, Soar Pontyberem, Capel y Drindod Cross Hands, Capel Hendre, Bancycapel, Jerwsalem Penygroes, Capel y Ddôl Llanarthne a Llangyndeyrn.

Erbyn hyn mae Iestyn ap Hywel, sydd a ganddo ofal dros Babell Zion Newydd a phedwar ar ddeg o eglwysi di-fugail eraill am y pymtheg mis nesaf, wedi cael ei ordeinio ar Dachwedd 2ail yng Nghymdeithasfa Blaenannerch 2016. Croeshawom Iestyn a'i deulu atom ar Sul cyntaf mis Medi ac hefyd i gyfarfod blaenoriaid pythefnos yn ddiweddarach. Edrychwn ymlaen at ei weld gyda ni yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.



## THE NEW PASTORATE and Rev IESTYN AP HYWEL

Voting took place on Sunday October 16<sup>th</sup> on seeking ministry for Babel Zion Newydd as part of a new Pastorate from January 2018 onwards. All ten churches voted for ministry. The other nine are Llanddarog, Pontyberem, Cross Hands, Capel Hendre, Bancycapel, Penygroes, Llanarthney and Llangyndeyrn.

Rev Iestyn ap Hywel, who has ministry over Babel Zion Newydd as one of fifteen pastorless churches for the next 15 months, was ordained minister at a meeting of the Association at Blaenannerch on November 2<sup>nd</sup> 2016. We welcomed Rev Iestyn and his family to our midst on the first Sunday of September and to an elders' meeting a fortnight later. We look forward to having his company with us during the year to come.

**SIARADWR GWADD** Daeth Trevor atom nos Lun Hydref 3ydd gyda Linda yn ei gynorthwyo i sôn am fodel o bentref a rheiffordd a enwyd Bekonscot. Creadigaeth Roland Callingham yw Bekonscot ac fe'i enwyd ar ôl y ddwy dref, Beaconsfield ac Ascot, lle bu gynt yn byw. Mae gan Beaconsfield gysylltiadau llenyddol. Roedd G K Chesterton wedi byw yno am y rhan fwyaf o'i fywyd, ymgartrefodd Enid Blyton yno ac fe anwyd Sir Terry Pratchett yno. Aeth Trevor â ni ar daith drwy'r gwahanol agweddau o fywyd a ddarluniwyd yn y pentref a berthynai i'r 1930egau. Fe'i agorwyd yn 1929 a dyma'r model cynharaf a mwyaf gwreiddiol o bentref yn y byd. Caiff ei adeiladu dros 1.5 erw o erddi taclus a modelau manwl a chywrair o adeiladau. Dros y blynnyddoedd ymwelodd dros 14 miliwn â'r lle a chodwyd dros £5.5 miliwn elusennau



**AN INTERESTING TALK** was given by Trevor assisted by Linda on the first Monday of October on the model village and railway of Bekonscot. It was created by Roland Callingham and he gave it the name Bekonscot after Beaconsfield and Ascot where he had previously lived. Beaconsfield has also literary links. G K Chesterton lived there for most of his life, Enid Blyton made it her home and Sir Terry Pratchett was also born there. Trevor took us on a journey through the various aspects of English life as it used to be in the 1930's. It is the world's oldest and original model village, opening for the first time in 1929. It is built over 1.5 acres of well kept gardens and finely detailed model buildings. Over the years it has raised over £5.5 million for charity with over 14 million visitors since 1929

	Blodau/Flowers	Glanhau am y mis/Cleaning for the month
Tachwedd/November	Mrs Nelda Davies	Mrs Maisie Johnson
Rhagfyr/December	Mrs Nan Thomas	Helen a Gwyn Gibbon
Ionawr/January	Mrs Nan Thomas	Pat Morgan and Jackie Evans

## BLE YN Y BYD/WHERE IN THE WORLD?



Gwnaeth Carole sôn bod yr emyn “Love Divine, all loves excelling” bob amser yn Zion yn cael ei chanu ar “Blaenwern.” Ganwyd William Penfro Rowlands, cyfansoddwr yr emyn-dôn , yn Sir Benfro. Ydych chi’n gwybod ble?

Carole mentioned that the hymn “Love Divine, all loves excelling” was always sung in Zion on the hymn tune “Blaenwern.” William Penfro Rowlands, the composer of the hymn tune, was born in Pembrokeshire. This plaque denotes the place. Does anyone know where this is?

## THE ADVENT

As the season of Advent approaches let us remind ourselves again of the meaning of the Advent wreath.



The four candles represent the four weeks of Advent. A tradition is that each week represents one thousand years, to sum up the 4,000 years from Adam and Eve until the Birth of the Saviour.

Three candles are purple and one is rose.

The purple candles in particular symbolize the prayer, penance, and preparatory sacrifices and good works undertaken at this time. The rose candle is lit on the third Sunday symbolizing the hope and expectation

surrounding our Lord’s first coming into the world and the anticipation of His second coming.

Since Advent is a time to stir-up our faith in the Lord, the wreath and its prayers provide us a way to prepare for Christmas. Moreover, this good tradition helps us to remain vigilant in our homes and not lose sight of the true meaning of Christmas.

Editors this month: Mrs Carole Rees and Mrs Helen Gibbon

Please forward any news/articles to Carole at [carole@rees8239.freeseve.co.uk](mailto:carole@rees8239.freeseve.co.uk)

[01267222573] by **December 19<sup>th</sup>** for the January issue

and a word about your favourite hymn/s to Helen at

[helengibbon1@btinternet.com](mailto:helengibbon1@btinternet.com) [ 01267290518]



# Bore Coffi Coffee Morning

Babell Zion Newydd contributed towards this worthy cause by holding a Coffee Morning on Friday 30<sup>th</sup> September. Thank you to Mrs Nan Thomas and Tina for organising this event and obtaining the official “Coffee Morning” packs from MacMillan and to all of you who contributed in whatever way you could.



There was a stunning display of homemade cakes in every flavour you could imagine.



The Chapel front was beautifully decorated with bunting and balloons.



Although some did try to hide the balloons!!



While others just sat and enjoyed the fellowship (and the cakes!!)

Whatever your contribution was, we thank you all. A grand total of £600 was raised.

## **CHRISTMAS THE STORY December 12<sup>th</sup>-17<sup>th</sup>**

This year the churches of Carmarthen will once again present the Christmas Story as a gift to the people of Carmarthen at the English Baptist Church Lammas St. Helen and Sian will represent Babell. You will see Sian just inside the gates on donkey duty. Please ensure a photograph for the newsletter. If anyone is interested in joining us this year please do. If anyone would like to steward for an hour or two please let us know. Thank you Nelda and Carole for volunteering Monday morning December 12<sup>th</sup> .

## **NADOLIG Y STORI Rhagfyr 12fed-17fed**

Fe fydd eglwysi Caerfyrddin yn perfformio Nadolig y Stori eleni eto yn Eglwys y Bedyddwyr Saesneg fel rhodd i bobl Caerfyrddin. Bydd Helen a Sian yn cynrychioli Babell ond mae croeso i chi ymuno gyda nhw. Bydd Helen yn gwisgo fel pentrefwrai a Sian yn stiwardio'r asynnod. Mae angen Stiwardiaid am awr neu ddwy. Diolch i Nelda and Carole am wirfoddoli ar gyfer dydd Llun Rhagfyr 12fed.



Dyma'r criw fu'n brysur y llynedd. Ble mae Sian?  
[See above for the answer]

How well do you know the Christmas Story? Which of the following would you find written in the New Testament?

1. The Christmas story is to be found in only two gospels, Mathew and Luke.
2. The angel came to Joseph who is said to be a carpenter in Nazareth.
3. Joseph wanted to divorce Mary on hearing the news that she was expecting a baby.
4. Mary and Joseph travelled to Bethlehem from Nazareth on a donkey.
5. Jesus was born in Bethlehem.
6. Jesus was born in a stable.
7. Three wise men came to see the baby Jesus.
8. An Angel of the Lord told the shepherds about the birth of Jesus.
9. The shepherds gave Jesus a lamb.
10. Mary and Joseph had to travel to Bethlehem because of a decree from Caesar Augustus that all the world should be taxed.



## Services for the next three months/Gwasanaethau'r tri mis nesaf

	Pregethwr/Preacher
06/11/16 2pm	Mr Hugh Waddell
13/11/16 2pm	Mr Geraint Lloyd <b>Communion/ Cymundeb</b>
20/11/16 2pm	Mr Martin Dalling
27/11/16 10.30	Parch Wynne Vittle
4/12/16 2pm	Pastor John Morgan <b>Communion/ Cymundeb</b>
11/12/16 4pm	Gwasanaeth Golau Cannwyll Casgliad ar gyfer Ty Llafar. Côr Ty Tawe. Gwasanaeth Dosbarth Caerfyrddin
18/12/16 4pm	Candlelight Service Rev Brian Lewis. Côr Crescendo
24/12/16 11.15pm	Noswyl Nadolig am 11.15pm Rev Adelaide Wheeler Cocks <b>Communion/ Cymundeb</b>
1/1/17 2pm	Pastor John Morgan <b>Communion/ Cymundeb</b>
8/1/17 10.30am	Rev Adelaide Wheeler Cocks
15/1/17 2pm	Mr Hugh Waddell
22/1/17 10.30am	Mr David Folland
29/1/17 2pm	Mr Marc Lonney

### **DIGWYDDIADAU SYDD I DDOD**

**Tachwedd 26<sup>ain</sup>** Ffair Nadolig: Eglwys y Bedyddwyr yn Heol Awst 10am-12pm

**Rhagfyr 18<sup>fed</sup>** Cinio Nadolig 12pm yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg

**Ionawr 7<sup>fed</sup>** Un dydd Marathon Organ a Darllen y Beibl

Torrwch eich enw ar y ar y daflen yn y cyntedd os gwelwch yn dda er mwyn gwirfoddoli ar gyfer y diwrnod.

**Ionawr 9<sup>fed</sup>** Cwrdd Gweddi am 7pm gyda'r Parch Iestyn ap Hywel

Trafodaethau'r Grawys gyda Mr David Folland. Dyddiadau i ddilyn.

### **FORTHCOMING EVENTS**

**November 26<sup>th</sup>** Christmas Fayre: Note venue for 2016 English Baptists 10am-12pm

**December 18<sup>th</sup>** Christmas Lunch 12pm at the Ivy Bush Hotel

**January 7<sup>th</sup>** One day Organ Marathon and Bible Reading: All proceeds to the Medical Day Unit

Please fill in the leaflet in the foyer for your availability for Bible reading

**January 9<sup>th</sup>** Prayer Meeting at 7pm with Rev Iestyn ap Hywel

Lenten Discussion with Mr David Folland. Dates to be announced.